

## Cais i Gymeradwyo Materion sydd Wedi'u Cadw'n Ôl yn dilyn Cymeradwyaeth Amlinellol

*Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012*

Dylai'r ffurflen Cais i Gymeradwyo Materion sydd Wedi'u Cadw'n Ôl gael ei defnyddio ar ôl i gais cynllunio amlinellol gael ei gymeradwyo.

Mae cais materion sydd wedi'u cadw'n ôl yn ymdrin â rhai o'r manylion sy'n weddill o ran cynnig cais amlinellol, neu bob un ohonynt, gan gynnwys:

- **ymddangosiad** - agweddau ar adeilad neu le sy'n effeithio ar y ffordd y mae'n edrych, gan gynnwys y tu allan i'r datblygiad
- **mynediad** - hygyrchedd pob llwybr i'r safle ac oddi yno, yn ogystal â'r ffordd y mae'n cysylltu â ffyrdd a llwybrau troed eraill y tu allan i'r safle
- **tirlunio** - gwella neu ddiogelu amwynderau'r safle, yr ardal a'r ardal gyfagos, a allai gynnwys plannu coed neu wrychoedd fel sgrin
- **cynllun** - yn cynnwys adeiladau, llwybrau a manau agored o fewn y datblygiad a'r ffordd y maent wedi'u gosod allan mewn perthynas ag adeiladau a manau y tu hwnt i'r datblygiad
- **graddfa** - yn cynnwys gwybodaeth am faint y datblygiad, gan gynnwys uchder, lled a hyd pob adeilad arfaethedig

Rhaid i fanylion y cais materion sydd wedi'u cadw'n ôl fod yn unol â'r gymeradwyaeth amlinellol, gan gynnwys unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd. Os bydd eich cynigion wedi newid mewn unrhyw ffordd, efallai y bydd angen i chi ailgyflwyno cais am ganiatâd amlinellol neu ganiatâd cynllunio llawn.

Efallai y bydd rhai manylion, ond nid y manylion i gyd, wedi cael eu cyflwyno'n ffurfiol a'u cymeradwyo ar y cam gwneud cais amlinellol, os dewisodd yr ymgeisydd wneud hynny, neu os mynnodd y cyngor hynny.

Bydd yr hysbysiad o benderfyniad amlinellol, a gyhoeddir gan y cyngor, yn nodi pa faterion a gafodd eu cadw'n ôl i'w cymeradwyo'n ddiweddarach.

Bydd y caniatâd yn ddilys am ddwy flynedd o'r dyddiad olaf y cafodd y materion sydd wedi'u cadw'n ôl eu cymeradwyo, neu, dair blynedd o'r dyddiad y cafodd caniatâd cynllunio amlinellol ei gymeradwyo - pa ddyddiad bynnag sydd hwyraf.

**Cyngor:** Nid yw caniatâd amlinellol yn gyfystyr â chaniatâd i ddechrau gweithio ar safle. Bydd yr hysbysiad o ganiatâd yn nodi pa faterion sydd wedi'u cadw'n ôl i'w cymeradwyo'n ddiweddarach. Pan fydd yr holl faterion sydd wedi'u cadw'n ôl wedi'u cymeradwyo, gall gwaith ddechrau ar y safle.

Yn aml, mae'n ddefnyddiol trafod eich cynnig gyda'ch awdurdod lleol cyn i chi gyflwyno eich cais - gelwir hyn yn gyngor cyn gwneud cais. Fel arfer, bydd gan eich awdurdod lleol fanylion ynghylch sut i wneud hyn ar ei wefan.